PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

POLISI PANOPTO

Adolygwyd	Dyddiad	Pwrpas Cyhoeddi/ Disgrifiad o'r Newid	Effaith ar Gydraddoldeb Cwblhawyd yr Asesiad
1.	1 Rhagfyr 2020	Cyhoeddiad cyntaf	
2.	3 Tachwedd 2023	Adolygu ac Ailgyhoeddi	7 Rhagfyr 2023

Swyddog Polisi	Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Cofrestrydd Academaidd	Prif Swyddog Gweithredu	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd	3 Tachwedd 2023

Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd

Prifysgol Bangor: Polisi Panopto

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu lefel uchel o gefnogaeth i ddysgwyr a mynediad cynhwysol at ddeunyddiau addysgu. Mae recordio darlithoedd gan ddefnyddio Panopto yn elfen allweddol o hyn. Cydnabyddir bod recordio darlithoedd (neu sesiynau hyfforddedig eraill) **ddim** yn cael eu hystyried fel rhywbeth i gymryd lle bod yn bresennol mewn dosbarth. Yn wir, mae ymchwil yn tynnu sylw at effeithiau negyddol posibl ar gyrhaeddiad myfyrwyr o orddibyniaeth ar recordio darlithoedd yn lle bod yn bresennol mewn dosbarth. Ond o'i ddefnyddio fel adnodd i gefnogi dysgu myfyrwyr, gall roi'r buddion canlynol:

- Caniatáu i fyfyrwyr newid/adolygu/adnewyddu eu nodiadau darlith.
- Caniatáu i fyfyrwyr ailedrych ar wybodaeth nad oeddent efallai wedi ei deall yn y dosbarth.
- Galluogi myfyrwyr i’w ddefnyddio fel cymorth adolygu (pan gaiff ei ddefnyddio ar y cyd â ffynonellau gwybodaeth eraill).
- Cefnogi amgylchedd addysgu a dysgu cynhwysol.
- Cefnogi myfyrwyr rhyngwladol nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf (fel bo'n briodol).
- Cefnogi myfyrwyr gyda chynlluniau Cefnogi Dysgu Personol.
- Cefnogi myfyrwyr na fydd efallai'n gallu mynd i ddosbarthiadau oherwydd rhesymau megis salwch, cyfrifoldebau gofalu, anawsterau trafnidiaeth neu ymrwymiadau gwaith na ellir eu hosgoi.
- Cefnogi myfyrwyr sy'n cynrychioli'r Brifysgol mewn gemau chwaraeon.

Er mwyn sicrhau profiad cyfartal, mae'r Brifysgol yn disgwyl y canlynol:

1. Dylai staff recordio pob darlith fel mater o drefn.
2. Yn achos sesiynau hyfforddedig eraill, dylid ystyried a fyddai modd eu recordio. Er enghraifft, efallai na fydd sesiwn ymarferol yn y labordy yn ei gyfanrwydd yn addas i'w recordio, ond efallai y byddai gwybodaeth ragarweiniol neu arddangosiad.
3. Lle nad yw sesiynau’n addas i’w recordio, dylai staff ystyried pa ddeunyddiau dysgu a ddarperir i gefnogi’r sesiwn. Er enghraifft, efallai y byddai crynodeb byr ar ffurf podlediad wedi'i recordio trwy Panopto yn briodol. Fel dewis arall neu'n ychwanegol at hyn, dylid cyfeirio myfyrwyr i le y gallant gael gwybodaeth bellach am y pynciau allweddol yr ymdrinnir â nhw (“os yw myfyrwyr angen rhagor o eglurhad am X edrychwch ar yr adnodd hwn yma….”).
4. Ar ddechrau pob modiwl lle defnyddir Panopto, dylai staff roi gwybod i'r myfyrwyr y bydd sesiynau’n cael eu recordio (trwy gyhoeddi yn y dosbarth ac ar Blackboard). Bydd angen i'r darlithydd egluro beth fydd yn cael ei recordio (hynny yw, ai fideo a/neu sain ydyw).
5. Mae gan fyfyrwyr yr hawl i wrthod cael eu recordio neu i ofyn am gael eu dileu o recordiad os oes modd eu hadnabod.
    a. Os nad yw myfyriwr eisiau ymddangos ar recordiad fideo, gellir dweud wrthynt lle i eistedd er mwyn bod oddi ar gamera.

    b. Os nad yw myfyrwyr eisiau i'w lleisiau gael eu recordio, gellir oedi ac ail-ddechrau recordiadau yn ôl yr angen. Cydnabyddir y gall pa mor aml y bydd rhaid gwneud hyn ddylanwadu ar ba mor ymarferol yw recordio sesiwn benodol.

6. Yr academydd sydd â rheolaeth yn y pen draw dros wneud recordiad a'i ryddhau. Gall staff oedi neu atal y recordiad yn ystod darlith fyw, er enghraifft i annog trafodaeth neu gyfranogiad, neu yn ystod trafodaeth am ddata/deunydd sensitif.

Mae'r Brifysgol yn gwarantu'r canlynol:

1. Ni fydd recordiadau Panopto'n cael eu defnyddio yn lle darlithoedd yng nghyd-destun gweithredu diwydiannol.
2. Ni fydd recordiadau Panopto presennol neu rai sydd wedi eu harchifo'n cael eu defnyddio yn lle addysgu oni bai y ceir cytundeb penodol yr aelod staff dan sylw (hynny yw, yn achos salwch neu pan na fydd ar gael).

Cydnabyddir na all recordio darlith fod yn addas i rai sesiynau hyfforddedig, e.e. tiwtorial, seminar neu ddosbarth maes a/neu lle mae cynnwys y sesiwn o natur gyfrinachol neu sensitif.
Hefyd, gall amgylchiadau technegol neu weithredol annisgwyl godi fel nad yw sesiwn yn cael ei recordio, ond dylid gwneud pob ymdrech resymol i oresgyn yr anawsterau hyn. I'r rhai sy'n defnyddio'r recordiadau, dylid hefyd ystyried natur amrywiol recordiadau byw.
Os yw staff yn recordio darlithoedd i'w defnyddio gan fyfyrwyr presennol (a myfyrwyr yn y dyfodol), mae prosesu'r data sy'n gysylltiedig â gwneud y recordiad yn cael ei gynhyrchu er budd cyfreithlon dysgu ac addysgu, ac felly'n cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data 2018.

Canllawiau technegol ar ddefnyddio Panopto Mae canllawiau ar ddefnyddio Panopto ar gael ar wefan y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth ac mae'n cynnwys fideos am ddefnyddio'r feddalwedd a gwybodaeth am y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael (https://www.bangor.ac.uk/itservices/lt/lecturecapture.php.cy).